# Post Penalltau

01443 862974
ysgolpenalltau@sch.caerphilly.gov.uk
ysgolpenalltau.com

YSGOL GYMRAEG PENALLTAU

**Post Penalltau – 29/01/2025**
**SCROLL DOWN FOR ENGLISH VERSION**

Annwyl Deuluoedd




**BLWYDDYN 4**

**ATGOF: Gwersyll yr Urdd – Bae Caerdydd**

Fel y nodwyd ym Mhost Penalltau dros yr wythnosau diwethaf bydd ein disgyblion blwyddyn 4 yn cael cynnig aros dros nos yng Nghanolfan yr Urdd ym Mae Caerdydd y tymor hwn ar Fawrth 20fed - 21ain. Bydd hwn yn llawn gweithgareddau hwyliog a chyfle i'r disgyblion gael profiad o drip preswyl gyda'u cyfoedion. Cost y daith fydd £94. Gofynnwn yn garedig i flaendal cychwynnol o £50 gael ei roddi i mewn i'r swyddfa erbyn 24/1/25. Bydd taliad terfynol yn ddyledus erbyn 10/3/25. Byddwn yn cynnal cyflwyniad i rieni blwyddyn 4 ynglŷn â'r daith ar 10/3/2025 am 3:30pm.




**PAWB**

**ATGOF: Wythnos Iechyd Meddwl**

Mae'r wythnos sy'n dechrau ar 3/02/2025 yn wythnos Ymwybyddiaeth Iechyd Meddwl. Bydd yr wythnos hon yn canolbwyntio'n wirioneddol ar weithgareddau lles ar draws yr ysgol ac fel rhan o'r wythnos hon rydym yn gofyn i ddisgyblion ddod i'r ysgol wedi gwisgo mewn dillad sy'n gwneud iddynt deimlo'n hapus ar ddydd Mawrth y 4/02/2025.




**PAWB**

**ATGOF: Eisteddfod Ysgol**

Byddwn yn cynnal ein eisteddfod ysgol ar 6/02/2025. Bydd hwn yn gyfle i ddisgyblion berfformio'r eitemau y maent wedi bod yn ymarfer y tymor hwn o flaen eu ffrindiau.



**PAWB**

**ATGOF: Cymorth Darllen**

Oes gennych chi fore neu brynhawn rhydd? Hoffech chi neu aelod o'ch teulu wirfoddoli rhywfaint o'ch amser sbâr i gefnogi plant gyda'u darllen? Os mai 'ydw' yw'r ateb, gadewch i'r swyddfa wybod os ydych ar gael i ddod i wrando ar amrywiaeth o blant yn darllen a hyd yn oed cael paned! (does dim rhaid i chi allu siarad Cymraeg!). Sylwch y bydd angen i wirfoddolwyr hefyd gwblhau gwiriad DBS trwy'r ysgol.




**PAWB**

**Gweithdy ADY i Rieni**

Ddydd Llun cynhaliwyd gweithdy i rieni lle buom yn rhannu sut rydym yn cefnogi ein disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol. Roedd hyn yn cynnwys rhannu gwybodaeth a strategaethau am sut rydym yn cydweithio fel **cymuned ysgol yn ogystal â phartneriaid allanol er mwyn i ni fod yn lleoliad mor gynhwysol â phosibl.**

**Mae cyflwyniad y gweithdy nawr ar gael i'w weld ar wefan ein hysgol o dan ein hadran Anghenion Dysgu Ychwanegol:**

[Ysgol Penalltau - Anghenion Dysgu Ychwanegol / Additional Learning Needs]

### BLWYDDYN 3-6

### Gwersyll Pêl-rwyd Hanner Tymor

Gweler isod fanylion clwb pêl-rwyd hanner tymor a redir gan Chwaraeon Caerffili.



Dear Families




**YEAR 4**

**REMINDER: YEAR 4 Urdd – Cardiff Bay Residential Trip**

As noted previously in Post Penalltau our year 4 pupils will be offered the opportunity to have an overnight stay in the Urdd Centre in Cardiff Bay this term on March 20th - 21st. This will be full of fun activities and the chance for the pupils to experience a resedential trip with their peers. The cost of the trip will be £94. We ask kindly that an initial deposit of £50 is given in to the office by 24/1/25. Final payment will be due by 10/3/25. We will be holding a presentation for year 4 parents regarding the trip on 10/3/2025 at 3:30pm.




**EVERYONE**
**REMINDER: Mental Health Week**

The week beginning the 3/02/2025 is Mental Health Awareness week. This week will have a real focus on wellbeing activities across the school and as part of this week we are asking that pupils come to school dressed in clothes that make them feel happy on Tuesday the 4/02/2025.




**EVERYONE**
**REMINDER: School Eisteddfod**

We will be holding our school Eisteddfod on 6/02/2025. This will be an opportunity for pupils to perform the items that they have been practicing this term in front of their friends.



**EVERYONE**

**REMINDER: Reading Support**

Do you have a free morning or afternoon? Would you or a family member like to volunteer some of your spare time to support children with their reading? If the answer is yes then please let the office know your availability to come and listen to a range of children read and even have a cuppa! (you do not have to be able to speak Welsh!). Please note volunteers will need to also complete a DBS check through school.




**EVERYONE**

**ALN Workshop for Parents**

On Monday we held a workshop for parents where we shared how we support our pupils with Additional Learning Needs. This included sharing information and strategies about how we work together as a school community as well as with external partners in order for us to be as inclusive a setting as possible.

The workshop presentation is now available to view on our school website under our Additional Learning Needs section:

[Ysgol Penalltau - Anghenion Dysgu Ychwanegol / Additional Learning Needs]

**YEAR 3 – 6**

**Half Term Netball Camp**

See below details of a half term netball club run be Sport Caerphilly



**Cysylltiadau pwysig a all fod o ddefnydd i chi /** ***Important contact details that could be of use to you:***

**Samaritans:** 116 123 (24 awr y dydd / *24 hours a day)*
**Wales Domestic Abuse Helpline:** 0808 80 10 800 (8.00am-2.00pm & 8.00pm-2.00am pob dydd / *every day*).
**Mind Cymru:** 0300 123 3393
**Childline:** 0800 1111 (24 awr y dydd / *24 hours a day)*
**Women's Aid:** 01495 742061 (24 awr y dydd / *24 hours a day)*
**Eastern Valley Food Bank:** 01495 760605

Mae Croeso i chi gysylltu gyda Ysgol Gymraeg Penalltau yn Gymraeg neu Saesneg
You are welcome to contact Ysgol Gymraeg Penalltau in Welsh or English

Cymraeg